

**CYNGOR SIR CEREDIGION
RANMORE, HEOL YR EGLWYS, CEI NEWYDD**

Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

1. Bydd prydlesi'n cael eu rhoi ar gyfer Garej Rhif 5 a'r cyn storfan yn Ranmore, Heol yr Eglwys, Cei Newydd.
2. Bydd y prydlesi am gyfnod o 5 mlynedd (ar gyfer y cyn storfan) neu 3 blynedd (ar gyfer y Garej).
3. Gwahoddir cynigion dros £2,000 y flwyddyn (ar gyfer y cyn storfan) a thros £500 y flwyddyn (ar gyfer y Garej).
4. Bydd taliad rhent y flwyddyn gyntaf yn daladwy wrth lofnodi'r brydles. Wedi hynny, bydd y rhent yn daladwy'n flynyddol ymlaen llaw.
5. Ni chaniateir isosod yr eiddo cyfan nac unrhyw ran ohono.
6. Bydd y Tenant yn sicrhau bod yr Eiddo'n cael ei gadw'n lân ac yn daclus, heb sbwriel na gwastraff y tu allan i'r Safle.
7. Ni chaniateir storio unrhyw beth y tu allan i'r adeilad.
8. Mae'r Tenant yn ymrwymo i beidio ag achosi niwsans.
9. Bydd y Tenant yn gyfrifol am yswirio unrhyw stoc ac offer yn yr Eiddo.
10. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am yswirio strwythur yr adeilad, a bydd y gost yn cael ei throsglwyddo i'r Tenant.
11. Bydd y Tenant yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio ac addurno mewnol ac allanol, a bydd gofyn iddo ddychwelyd yr eiddo mewn cyflwr nad yw'n waeth nag yr oedd ar ddechrau'r brydles.
12. Bydd y Tenant yn indemnio'r Cyngor rhag pob achos, cost, iawndal, hawliad a galwad, ac yn yswirio yn enwau'r Cyngor a'r Tenant ar y cyd rhag pob hawliad a galwad o'r fath.
13. Bydd y Tenant yn talu'r holl ardrethi, trethi, asesiadau a threuliau presennol ac yn y dyfodol a godir neu a osodir ar y Safle, neu ar y Cyngor neu'r Tenant sy'n perthnasol ag ef.
14. Ni chaniateir defnydd preswyl na llety cysgu.
15. Ni chaniateir storio tanwydd na deunyddiau peryglus. Ni chaniateir storio unrhyw beth y tu allan i'r adeilad.
16. Rhaid peidio â rhwystro'r mynediad.
17. Bydd y brydles wedi'i heithrio rhag sicrwydd deiliadaeth o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1954.

DS Amlinelliad yn unig o'r Telerau ac Amodau yw hwn. Nid yw'r Cyngor yn ymrwymo i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig, ac mae derbyn unrhyw gynnig yn amodol ar gwblhau prydles ffurfiol ar delerau i'w pennu gan y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i amrywio'r Amodau uchod neu ychwanegu atynt.

Adain Ystadau, Economi ac Adfywio,
Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA